| | |
|---|---|
| Annwyl Rieni a Gofalwyr, | Dear Parents and Carers, |
| **Blwyddyn Ysgol Newydd – Gweithio gyda'n gilydd i gefnogi presenoldeb a dysgu** | **New School Year – Working Together to Support Attendance and Learning** |
| Wrth i ni ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i bwysleisio pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol ac i rannu gwybodaeth bwysig am ddisgwyliadau presenoldeb yng Nghyngor Sir Ddinbych. | As we start the new academic year, I would like to take this opportunity to emphasise the importance of regular school attendance and to share important information regarding attendance expectations within Denbighshire County Council. |
| Mae tystiolaeth yn parhau i ddangos cydberthynas sylweddol rhwng absenoldeb yn ystod wythnosau cynnar y flwyddyn ysgol ac absenoldeb parhaus yn ddiweddarach yn y flwyddyn academaidd. | Evidence continues to demonstrate a significant correlation between absence during the early weeks of the school year and persistent absence later in the academic year. |
| Yn ogystal â'i effaith ar gyflawniad academaidd, mae presenoldeb rheolaidd yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Mae dechrau'r flwyddyn academaidd yn gyfnod arbennig o bwysig lle mae grwpiau cyfeillgarwch yn cael eu sefydlu, perthnasoedd yn yr ystafell ddosbarth yn cael eu datblygu, a disgyblion yn dod yn gyfarwydd â threfniadau a disgwyliadau newydd. Gall absenoldeb yn ystod yr wythnosau ffurfiannol hyn arwain at ddisgyblion yn colli cyfleoedd gwerthfawr i gryfhau cysylltiadau cymdeithasol ac integreiddio'n llawn i fywyd ysgol. Gall aflonyddwch o'r fath effeithio ar hyder, ymgysylltiad, ac ymdeimlad cyffredinol disgybl o berthyn, gan greu rhwystrau i ddysgu a lles. | In addition to its impact on academic achievement, regular attendance plays a crucial role in supporting pupils' social and emotional development. The beginning of the academic year is a particularly important period during which friendship groups are established, classroom relationships are developed, and pupils become familiar with new routines and expectations. Absence during these formative weeks can result in pupils missing valuable opportunities to strengthen social connections and integrate fully into school life. Such disruption may affect confidence, engagement, and a pupil's overall sense of belonging, potentially creating barriers to both learning and wellbeing. |
| Mae presenoldeb rheolaidd yn hanfodol i sicrhau bod disgyblion yn cyflawni eu potensial llawn. Mae pob diwrnod o ddysgu yn werthfawr, a gall hyd yn oed cyfnodau byr o absenoldeb arwain at gyfleoedd dysgu coll a allai fod yn anodd eu hadfer. Yn ogystal ag effeithio ar gynnydd academaidd, gall absenoldeb hefyd effeithio ar ddatblygiad cymdeithasol, lles ac ymgysylltiad | Regular attendance is essential in ensuring that pupils achieve their full potential. Every day of learning is valuable, and even short periods of absence can result in missed learning opportunities that may be difficult to recover. In addition to affecting academic progress, absence can also impact a child's social development, wellbeing, and engagement with school life. Consequently, all schools across |

Cyngor Sir Rhuthun, PO Box 62
Rhuthun, LL15 9AZ
01824 708020
Addysg@sirddinbych.gov.uk

Denbighshire County Council, PO Box 62
Ruthin, LL15 9AZ
01824 708020
Education@sirddinbych.gov.uk

plentyn â bywyd ysgol. O ganlyniad, mae pob ysgol ledled Sir Ddinbych wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â rhieni a gofalwyr i hyrwyddo a chynnal lefelau uchel o bresenoldeb.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn parhau i fod yn ymrwymedig i fynd i'r afael ag absenoldeb anawdurdodedig, gan gynnwys gwyliau a gymerir yn ystod y tymor heb awdurdodiad ymlaen llaw. Bydd Hysbysiadau Cosb Benodedig (HCB) yn cael eu cyflwyno, lle bo hynny'n briodol, i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfrifoldebau rhieni o dan ddeddfwriaeth presenoldeb. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd ceisiadau am absenoldeb yn ystod y tymor yn cael eu hawdurdodi, gyda phob cais yn cael ei ystyried ar ei rinweddau unigol gan y Pennaeth.

Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd amser teuluol, gall absenoldeb yn ystod y tymor gael effaith niweidiol ar gynnydd a chyrhaeddiad addysgol disgybl.

Gofynnwn yn barchus i rieni a gofalwyr ystyried presenoldeb ysgol yn ofalus wrth drefnu gwyliau ac ymrwymiadau eraill. Edrychwch ar y dyddiadau tymhorau ysgol cyhoeddedig a gofynnwch am gyngor gan yr ysgol cyn cyflwyno unrhyw gais am absenoldeb yn ystod y tymor.

Diolch am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus. Trwy weithio gyda'n gilydd, gallwn sicrhau bod pob plentyn yn elwa o ddechrau cadarnhaol a llwyddiannus i'r flwyddyn academaidd

Yn gywir,

*G.W.Davies*

**Geraint Davies**
Pennaeth Addysg / Head of Education

Denbighshire are committed to working in partnership with parents and carers to promote and maintain high levels of attendance.

Denbighshire County Council remains committed to addressing unauthorised absence, including holidays taken during term time without prior authorisation. Fixed Penalty Notices (FPNs) will be issued, where appropriate, to ensure compliance with parental responsibilities under attendance legislation. Requests for absence during term time will only be authorised in exceptional circumstances, with each application considered on its individual merits by the Headteacher.

Whilst we recognise the importance of family time, absence during term time can have a detrimental effect on a pupil's educational progress and attainment.

We respectfully request that parents and carers take school attendance into careful consideration when arranging holidays and other commitments. Please consult the published school term dates and seek advice from the school before submitting any request for leave of absence during term time.

Thank you for your continued support and cooperation. By working together, we can ensure that every child benefits from a positive and successful start to the academic year.

Yours sincerely,

*G.W.Davies*

**Geraint Davies**
Pennaeth Addysg / Head of Education

Cyngor Sir Rhuthun, PO Box 62
Rhuthun, LL15 9AZ
01824 708020
Addysg@sirddinbych.gov.uk

Denbighshire County Council, PO Box 62
Ruthin, LL15 9AZ
01824 708020
Education@sirddinbych.gov.uk